# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 11ed Medi 2023
## Festri Capel Dinas

Presennol: Alyn Williams, Terry Huws, Dafydd Williams, Sian Parri, Deio Williams, John Davies, Henry Hughes, Alan Hughes, Sioned Pearson, Gareth Jones.

Ymddiheuriadau: Catrin Williams

1. Cadeiriwyd gan Henry Hughes ac estynnodd groeso i bawb.

2. Croesawyd Catrin Huws 'Cynefin', Catrin Roberts 'Tai Teg' a Robin Evans o Cyngor Gwynedd, derbynwyd gwybodaeth am y Cynllun Tai Teg a chafwyd cyfle i'r Cynghorwyr holi a sgwrsio ymhellach. Bydd y Swyddogion yn ebostio'r Clerc gan anfon mwy o wybodaeth, bydd y Clerc yn rhannu rhain hefo'r Cynghorwyr. Diolchodd y Cadeirydd i'r tri, yn sicr bu y sesiwn yn fuddiol i bawb.

3. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Dim datblygiad.
   b. **Tir Garnfadryn-** Dim datblygiad
   c. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Bu dim datblygiad dros mis Awst, bydd y Clerc yn llenwi'r ffurflen 'pre app' cyn y cyfarfod nesaf.
   ch. **Lwfans Cynghorwyr Cymuned -** Trafodwyd y cynnig o lwfans i'r Cynghorwyr – roedd pawb am ei wrthod eto eleni.
   d. **Barbio ym Mhorth Colmon –** Anfonodd y Clerc ebost at yr adran ffyrdd, ond hyd yma ni chafwyd ateb.

dd. **Arwyddion dim cwm traeth Towyn –** Derbyniodd y Clerc ymddiheuriad gan y Swyddog nad oedd hyn wedi digwydd ond yn cadarnhau y byddai gosod arwyddion yn digwydd cyn gwyliau'r ysgolion – cafwyd ar ddeall gan un o'r Cynghorwyr fod bellach arwyddion newydd wedi eu gosod.

e. **Biniau baw cwn ym Mhetref Tudweiliog –** Cysylltodd y Clerc ar Swyddog Stryd a'r Cynghorwr Cymuned Alan Hughes, edrychodd Alan I fewn I'r mater a penderfynwyd gosod bin baw ci wrth adwy traeth Towyn.

5. Gohebiaeth:

a. **Cais Cynllunio C23/0697/46/LL Cefn Amlwch Tudweiliog –** Dim sylw

b. **Cais Cynllunio C23/0698/46/DT Cefn Gwyn Garfadryn –** Dim Sylw

c. **Talu Cyflog y Clerc –** Cafwyd caniatad i'w dalu

Ch. **Zurich –** Cafwyd caniatad i dalu £390.63 i gwmni Zurich insurance

d. **ico –** Cafwyd caniatad i dalu £40.00

dd. **Praesept £3500.00 –** Derbynnwyd ail hanner y praesept.

e. **Concrit RAAC –** Derbynwyd llythyr gan Ystadau Cymru yn gofyn I'r cyngor ddatgan ddatgan os oedd adeiladau o few neu meddiant yn cynnwys y concrit RAAC – does gan y Cyngor Cymuned yr un adeilad yn eu meddiant.

f. **Cyllid ar gyfer gwella tiroedd er budd natur –** Derbyniodd y Clerc ebost gan Swyddog Cefnogi Cymunedau yn ein gwybyddu o'r cyllid sydd ar gael, bydd y Clerc yn rhannu'r wybodaeth hefo'r Cynghorwyr.

**6. Rhannu'r praesept –**

Rhannodd y Clerc maentolen presennol a'r rhagdybiaeth o wariant o hyn i mis Mawrth. Penderfynnwyd rhannu'r praesept fel a ganlyn:-

£300.00 Mynwentydd Bro Madryn
£100.00 Mynwent Tudweiliog
£100.00 Mynwent Dinas

7. Unrhyw Fater Arall:-

a/ Derbynwyd pryder fod arwyddion ar groeslon gwaelod Capel Pengraig angen eu hail gwneud, does dim llinellau gwyn nag arwydd yn rhybuddio o groeslon, gallai hyn arwain at ddamwain. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran priffyrdd.

b/ Cafwyd ar ddeall fod si bod Llain Fatw wedi ei werthu. Bydd Sian Parri holi ynglyn a hyn ac yn gwybyddu'r Cyngor Cymuned

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 9ed Hydref 2023 am 7.30yh

Yn Festri Capel Garnfadryn